# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Sharon Parry a Gareth Thomas
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC. .

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson, Dyfed Williams a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

2. **Datganiad o** Fuddiant – datganiadau o fuddiant personol:
Cyng. Gwilym O. Jones yn eitem 4.2 Neuadd y Pentref.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 21 Hydref 2025 fel rhai cywir (cyn. Cyng. Sharon Parry, eilio Cyng. G.O. Jones ).

4. **Materion sy'n codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Cytuno i drin y meinciau cyn gynted ag y bydd y tywydd yn gwella.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd y ffenestr newydd wedi ei gosod yn y cwt boeler. Roedd y clerc wedi cwrdd â'r Arolygydd Dosbarthu, (Dŵr Cymru) a chafwyd cadarnhad bod popeth yn ei le ar gyfer y cysylltiad dŵr newydd.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion - dim.

5. **Cynllunio**

5.1 FPL/2025/247 Tŷ Newydd, Llanfair yn Neubwll.
Cais llawn am ddymchwel ac ailosod yr annedd bresennol ynghyd â chreu 10 uned glampio (defnydd drwy gydol y flwyddyn), ystafell gêm gymunedol, ynghyd â gwaith cysylltiedig - Mynegodd yr Aelodau bryderon mawr am y mynediad i lawr i'r datblygiad a phenderfynwyd gofyn i'r swyddogion cynllunio a phriffyrdd gynnal ymweliad safle cyn gwneud penderfyniad ar y cais.

6. **Materion Ariannol**
Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.10.2025 a 31.10.2025 ynghyd â chysoni banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Hydref) | £364.19 | Scottish Power | £314.97 |
| British Gas | £11.42 | Medwyn Owen. | £54.80 |
| G&R Building and Landscaping | £490 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn

perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Gorchymyn Rheoleiddio Traffig – (personau anabl yn parcio 15 Rhen Ysgol)

7.2 Fforwm cyngor tref a chymuned - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf.

7.3 Hysbysiad statudol: Ysgol Uwchradd Caergybi

7.4 Nodyn Datblygu Ymarfer 21 Cyfarfodydd Blynyddol

7.5 Ymgynghoriad: Newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

7.6 Gweithdy - Protocol Datrys Lleol

7.7 Gorchymyn Terfyn Cyflymder 30mya 2025

**8. Adran 6 Adroddiad Bioamrywiaeth –** cytunwyd i dderbyn yr adroddiad fel y'i cynhyrchwyd gan y clerc.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Sian Jones:
Mynegodd bryderon y byddai mwy o gerbydau yn parcio ar Heol Minffordd nawr bod yr ystâd newydd yn cael ei hadeiladu rhwng Dol Eithin a Dafarn Cwch. Nodwyd bod gan y tai hyn fannau parcio dynodedig,- cytunwyd i ofyn am linellau melyn dwbl i sicrhau y byddai parcio'n cael ei gyfyngu i un ochr i Lon Minffordd.

**10. Cyfarfod Nesaf - 20 Ionawr 2026**

: